

# Eistedd yn dawel gerbron dirgelwch

*“Ymlonyddwch, a deallwch mai myfi sydd Dduw.” (adn. 10)*

## Beth am ddarllen Salm 46:1–11 ac yna myfyrio

Yr ydym yn parhau heddiw i drafod y cwestiwn: “Os yw’n wir fod yna hiraeth am y nefoedd wedi ei adeiladu i mewn i galon dyn, sut y mae’r rhan fwyaf o ddynoliaeth yn delio gyda hyn?” Un o’r ffyrdd a nodwyd ddoe yw ceisio llunio ffordd osgoi, ei osgoi a mynd i gyfeiriad arall. Ffordd arall, beth bynnag, yw i wynebu’r ffaith fod yna hiraeth na ellir ei gysuro yn y galon ac yna ceisio esboniad rhesymol iddo. Yr ydym yn wastad yn ceisio rhoi pethau anesboniadwy i mewn i gategoriâu lle y gellir cael esboniad cyfun. Mae hyn yn gwneud yr anesboniadwy yn dderbyniol i ni. Mae Dr Lawrence Crabb, sydd yn Gristion ac yn seicolegydd, yn aml yn pwysleisio’r pwynt yma yn ei ysgrifeniadau: “Yn hytrach nag eistedd yn dawel o flaen dirgelwch, yr ydym bob amser am ei ddwyn i gylch rheolaeth. Yr ydym yn ffyliaid.”

Pan fyddwn yn gwneud hyn, ni ddylai ein synnu o gwbl fod yr hyn yr ydym yn ceisio siarad amdano yn dioddef cryn dipyn yn y broses. Dywedodd seiciatrydd arall, William Kirk Kilpatrick, wrth geisio disgrifio’r broses yma: “Mae fel ceisio doddi esgid maint 12 i mewn i focs esgidiau maint 4, neu geisio rhoi aderyn gwyllt mewn caets caneri. Wedi i chi ei gael i mewn, ni fydd yn edrych fel aderyn gwyllt mwyach.”

Mae’r sêl sydd yn ein nodweddu wrth inni geisio esbonio pethau yn arwyddo ein hawydd i’w rheoli. Yr ydym yn teimlo yn fwy grymus pan ydym yn medru rheoli pethau a syniadau, ac yn sicr yn teimlo yn fwy cysurus pan ydym yn wynebu dirgelwch. Ond ni ellir rheoli’r pethau sydd yn ymwneud â’n henaid bob amser; yn aml yr ateb gorau yw eistedd yn dawel o flaen Duw mewn gweddi breifat.

## Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Salm 131:1–3; Job 37:14; Eiseia 30:15

## Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth lwyddodd y salmydd i’w ddweud?
2. Beth oedd cyhuddiad Duw yn erbyn Israel?

## Gweddi

O Dduw, mae cymaint amdanaf yn ddirgelwch llwyr. Helpa fi i roi mwy o amser i’th adnabod di nag i adnabod fy hunan. Wrth i mi dy adnabod di y byddaf yn adnabod fy hunan yn well. Rwy’n gofyn hyn yn enw ardderchog Iesu Grist. Amen.